**Rhif: 2**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C23/0432/11/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **26/05/2023** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Bangor** |
| **Ward:** | **Dewi - Bangor** |
| **Bwriad:** | **Cael gwared ar y pad glanio hofrennydd presennol ac adeiladu dau lanfa newydd i gefnogi'r yr Ysbyty presennol. Bydd y gwaith yn cynnwys ailraddio'r dirwedd feddal i gynnwys ffordd fynediad newydd, padiau glanio yn cynnwys yr holl ddraenio dŵr wyneb, marciau a rhwystrau glanio wedi'u goleuo, ffensys diogel newydd a llociau i gynnal yr hofrenyddion.** |
| **Lleoliad:** | **Helipad, Ysbyty Gwynedd, Penrhosgarnedd,, Bangor, LL57 2PW** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais llawn ar gyfer creu cyfleuster glanio newydd ar gyfer hofrenyddion ger Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Fe fyddai'r gwaith yn cynnwys :

- cael gwared ar y pad glanio hofrennydd presennol
- creu dwy lanfa newydd trwy:
  - ailraddio'r dirwedd gan greu dau arglawdd gyda llain wastad siâp cylch y tu cefn iddynt
  - gosod lleiniau caled ar gyfer padiau glanio
  - gwaith draenio dŵr wyneb
  - gosod rhwystrau glanio newydd wedi'u goleuo
  - codi ffensys diogelwch
  - creu llociau i gynnal yr hofrenyddion
  - gwaith peirianyddol cysylltiedig.

1.2 Yn sgil asesiad o'r gwasanaeth presennol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Besti Cadwaladr wedi adnabod yr angen i uwchraddio a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer glanio hofrenyddion yn Ysbyty Gwynedd. Mae'n nodi i'r gwasanaeth presennol fod yn brysur iawn yn enwedig wrth ystyried fod poblogaeth y sir yn dyblu yn ystod misoedd yr haf ynghyd a phresenoldeb Parc Cenedlaethol Eryri yn yr ardal. Fe fyddai'r cyfleuster newydd yn cynnig rhagor o gapasiti i dderbyn cleifion ac yn creu cyfleuster glanio i ystod fwy eang o hofrenyddion, 24 awr y diwrnod, 365 diwrnod y flwyddyn.

1.3 Lleolir y llain glanio oddeutu 150m i'r dwyrain o'r ysbyty, ar lain o dir llethrog mewn safle dyrchafedig uwchben y ddinas, sydd, yn ôl yr Awdurdod Hedfan Sifil, yn cynnig llwybrau hedfan da i fewn ac allan o dir yr ysbyty. Saif yr ysbyty ar gyrion deheuol Canolfan Isranbarthol Bangor ym maes dref Penrhosgarnedd ac mae nifer helaeth o ddatblygiadau wedi eu caniatáu'n ddiweddar o fewn cwrtil yr ysbyty er mwyn cynnal a gwella'r cyfleusterau sydd ar gael yno. Mae'r safle hefyd yn rhannol o fewn parth clustogi Heneb Gofrestredig Crug Goetre Uchaf (CN376).

1.4 Cyflwynwyd y dogfennau isod er cefnogi'r cais :

- Adroddiad dichonolrwydd ar gyfer gwella'r llain glanio ar gyfer hofrenyddion yn Ysbyty Gwynedd wedi ei baratoi gan Awdurdod Hedfan Sifil y DU
- Asesiad a Datganiad Dull Coedyddiaeth
- Gwerthusiad Ecolegol

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu

eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni’r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017:-**

PS 1 : Yr Iaith Gymraeg a’r Diwylliant Cymreig

PS 19 : Gwarchod a lle bo’n berthnasol gwella’r amgylchedd

PS 20 : Diogelu a lle bo’n berthnasol gwella asedau treftadaeth

ISA 2 : Cyfleusterau Cymunedol

PCYFF2 : Meini prawf datblygu.

PCYFF3 : Dylunio a siapio lle

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 11, Chwefror 2021

NCT : Cadwraeth Natur a Chynllunio

NCT12 : Dylunio

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Mae nifer helaeth o geisiadau wedi eu caniatáu’n ddiweddar o fewn cwrtil yr ysbyty er mwyn gwella’r cyfleusterau

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Dŵr Cymru : | Amod safonol a nodiadau ar gyfer yr ymgeisydd |
| Uned Coed | Nid oes angen tynnu unrhyw goed i wneud lle ar gyfer y datblygiad a bydd yr holl waith peirianyddol ac adeiladu wedi'i leoli y tu allan i lain amddiffyn gwreiddiau’r coed o amgylch.<br><br>Ni fydd unrhyw effaith andwyol ar werth coedyddiaeth y safle. |

| | |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Trafnidiaeth) : | Nid yw Llywodraeth Cymru am roi cyfarwyddid yn yr achos hwn |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Dim gwrthwynebiad – sylwadau ar gyfer yr ymgeisydd |
| Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru | Dim sylwadau i'w cynnig |
| Uned Draenio Tir | Oherwydd maint a natur y datblygiad mae posib bydd angen darparu cais i'r Corff Cymeradwy SDS i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith adeiladu. |
| Uned Trafnidiaeth | Dim sylwadau i'w cynnig gan y tybir na fuasai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. |
| Heddlu Gogledd Cymru | Dim sylwadau i'w cynnig |
| Cadw | Heb eu derbyn |
| Gwarchod y Cyhoedd | Heb eu derbyn |
| Awdurdod Hedfan Sifil | Heb eu derbyn |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ger y safle ac mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Ni dderbyniwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad yn ystod y cyfnod hysbysu statudol. |

**5. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:**

**Lleoliad, Dyluniad ac Effaith Gweledol**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae polisi ISA 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn gefnogol i gynlluniau sy'n cynnal a gwella cyfleusterau cymunedol os ydynt yn cwrdd gyda chyfres o feini prawf ac fe drafodir y meini prawf perthnasol i'r cynllun hwn isod :

i. *eu bod wedi eu lleoli oddi mewn neu'n gyfagos â ffiniau datblygu, neu eu bod wedi'u lleoli tu allan i ffiniau datblygu oddi mewn i glystyrau, lle bydd y cynnig yn darparu cyfleuster angenrheidiol i gefnogi'r gymuned leol*

Mae'r safle wedi ei leoli yn union gerllaw ffin ddatblygu Bangor.

iv. *bod graddfa a math y cynnig yn briodol o gymharu â maint, cymeriad a swyddogaeth yr anheddle*

Wrth ystyried statws Bangor fel Canolfan-Is Ranbarthol a defnydd presennol y safle fel y prif leoliad triniaeth iechyd yng Ngogledd Orllewin Cymru, fe gredir bod y cyfleuster hwn yn gwbl briodol ar gyfer natur y lleoliad a statws yr anheddle.

5.2 Fe ystyrir felly fod hwn yn gynllun ar gyfer gwella gwasanaeth hanfodol a gynhigir ar gyfer cymunedau Gwynedd a'i fod yn cwrdd gyda'r meini prawf perthnasol a'u rhestrir dan faen Prawf 1 polisi ISA 2 y CDLl ac felly bod egwyddor y cais cynllunio'n dderbyniol.

**Mwynderau cyffredinol**

5.3 Yn gyffredinol, mae polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn annog caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau newydd cyn belled na fyddent yn cael effaith niweidiol ar iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol neu ar yr ardal yn gyffredinol.

5.4 Fe fyddai'r datblygiad hwn mewn lleoliad cuddiedig o'r rhan fwyaf o welfannau cyfagos. Mae llwybr cyhoeddus Rhif 39 Cymuned Bangor yn rhedeg heibio ffin ogleddol y safle ond mae gwrych aeddfed rhwng y llwybr hwn a'r safle. Mae'r rhan fwyaf o'r golygfeydd o'r safle o bell ac yng nghyd-destun y safle datblygedig presennol a'r ysbyty gerllaw. Wrth ystyried y tirlun lleol a'r coed a gwrychoedd presennol sy'n amgylchynu'r safle, ni chredir y bydd newid arwyddocaol i olwg y safle fel y'i gwelir o'r tu allan.

5.5 Mae wrth gwrs potensial ar gyfer sŵn ac ymyrraeth ddeillio o gyfleuster o'r math yma ond nid yw hyn yn debygol o fod yn arwyddocaol waeth na'r hyn sydd eisoes yn digwydd. Ni fydd cynnydd arwyddocaol yn nefnydd y safle, yn hytrach fe fydd yn bosibl delio'n fwy effeithlon gyda'r drafnidiaeth sydd angen defnyddio'r lleiniau glanio, yn enwedig mewn achos argyfwng pan fydd mwy nag un hofrennydd angen glanio mewn cyfnod byr o amser.

5.6 Yn ogystal, mae'r safle oddeutu 200m o'r tai preswyl agosaf ac ni chredir bydd niwed ychwanegol arwyddocaol i fwynderau preswylwyr lleol yn deillio o'r datblygiad. Fe gredir felly bod y cynnig yn dderbyniol dan ofynion polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y CDLl.

**Materion Archeolegol**

5.7 Mae'r safle yn rhannol o fewn parth clustogi heneb gofrestredig Crug Goetre Uchaf, crug crwn sy'n dyddio o'r adeg cyn hanesyddol. Wrth ystyried y pellter sydd rhwng y safle a'r heneb, ynghyd a'r ffurfiant tir a'r datblygiadau eraill sydd rhwng y ddau leoliad, ni chredir bydd unrhyw effaith ar osodiad yr heneb yn deillio o'r datblygiad hwn ac felly mae'r cais yn dderbyniol dan bolisi PS 20 y CDLl.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.8 Mae'r safle ar dir glas yn bennaf gyda choed a llwyni o amgylch y ffiniau. Fe gyflwynwyd asesiad ecolegol o'r safle ac fe ddaeth hwnnw i'r casgliad nad oes diddordeb bioamrywiaeth arbennig i'r safle ei hun er bod y ffiniau o arwyddocâd ar gyfer bywyd gwyllt ac yn bwysig yn weledol. Mae'r adroddiad yn argymell diogelu nodweddion bioamrywiaeth drwy lunio Cynllun Rheolaeth Adeiladu Gadwraethol a Chynllun Rheolaeth Bioamrywiaeth ar gyfer y safle.

5.9 Yn ogystal fe gyflwynwyd adroddiad coedyddiaeth a oedd yn cadarnhau na fyddai niwed i'r coed a gwrychoedd o gadw at fesurau priodol wrth ymgymryd â gwaith ar y safle. Fe gredir felly, o

osod amod ar y cais er sicrhau y dilynir argymhellion yr adroddiadau uchod y byddai’r datblygiad hwn yn dderbyniol o safbwynt polisi PS 19 y CDLl.

**Materion Iaith**

5.10 Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 mae’n ddyletswydd wrth wneud penderfyniad ar gais cynllunio i roi ystyriaeth i’r iaith Gymraeg, lle mae’n berthnasol i’r cais hwnnw. Ategir hyn ymhellach gan bara 3.28 o Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021) ynghyd a Nodyn Cyngor Technegol 20. Mae’r Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ‘Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy’ (mabwysiedig Gorffennaf 2019) yn rhoi arweiniad pellach ar sut y disgwylir i ystyriaethau i'r iaith Gymraeg fod yn cael eu hymgorffori ym mhob datblygiad perthnasol.

5.11 Nodir fod yna rhai mathau penodol o ddatblygiadau ble fydd gofyn i’r bwriad fod yn cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Mae’r trothwyon o ran pryd y disgwylir cyflwyno Datganiad/Adroddiad wedi ei hamlygu ym Mholisi PS1 o’r CDLl ar y Cyd ynghyd a Diagram 5 o’r CCA. O safbwynt y mathau o ddatblygiadau dan sylw, nodir y canlynol: Nid yw’r bwriad arfaethedig yn cyrraedd y trothwyon ar gyfer cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg neu Adroddiad ar Asesiad Effaith Iaith Gymraeg. Serch hynny mae Atodiad 5 y CCA yn nodi y dylai pob datblygiad tai, manwerthu, masnachol neu ddiwydiannol ble nad oes angen cyflwyno Datganiad/Asesiad iaith Gymraeg ddangos sut fo ystyriaeth wedi ei roi i’r iaith.

5.12 Mae’r bwriad sydd gerbron ar gyfer gwelliannau i adnodd cymunedol ar safle sydd eisoes mewn defnydd am yr un pwrpas ac ni fydd newid arwyddocaol yn natur na dwysedd y defnydd hwnnw. Nid yw hwn yn ddatblygiad lle mae gofyn cyflwyno asesiad ffurfiol o’r effaith ar yr iaith ac wrth ystyried mai yn y bôn cynnig i wella rheolaeth dydd i ddydd cyfleuster presennol yw hwn, ni chredir bydd unrhyw effaith ieithyddol yn digwydd o’r datblygiad. Wrth ystyried bod Bwrdd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gorff cyhoeddus gyda pholisi iaith ei hun sy’n gyson a safonau cenedlaethol, fe ddisgwylir bydd unrhyw arwyddion a’u dangosir ar y safle yn parchu diwylliant hanesyddol yr ardal ac felly’n cydymffurfio gyda pholisi PS 1 y CDLl.

## 6. Casgliadau:

6.1 O ganlyniad i’r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw bolisi cynllunio perthnasol o fewn y CDLl a bod y datblygiad a gynhigir yn briodol ar gyfer y safle ac fe fyddai’n helpu gwireddu amcan o bwysigrwydd strategol. Fe ystyriwyd yr holl ystyriaethau cynllunio materol a ni chredir fod y bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol ychwanegol annerbyniol i drigolion gerllaw na’r gymuned yn gyffredinol.

## 7. Argymhelliad:

7.1 Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i amodau'n ymwneud â'r materion canlynol:

1. Amser (5 mlynedd)
2. Yn unol â’r cynlluniau
3. Rhaid dilyn argymhellion yr Asesiad a Datganiad Dull Coedyddiaeth a’r Gwerthusiad Ecolegol
4. Amod Dŵr Cymru er amddiffyn y system garthffosiaeth

<u>Nodiadau</u>

1. Dŵr Cymru
2. Cyfoeth Naturiol Cymru
3. Uned Draenio Tir